# Y Ffordd Gywir: Astudiaeth Achos

Fel Ymddiriedolaeth Ambiwlans, rydyn ni'n cefnogi ac yn hyrwyddo Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, ac un elfen o hynny yw Erthygl 31: 'Hawl i chwarae', yr ydyn ni'n ei gweithredu pan fydd plant a phobl ifanc yn ein gofal, er mwyn helpu i wneud eu profiadau'n rhai cadarnhaol.

Mae'r tîm Profiad Cleifion ac Ymwneud Cymunedol (PECI) wedi datblygu sylfaen gadarn, gydag ysgolion yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymgyfarwyddo â'n gwisg swyddogol a'n cyfarpar mewn lleoliad nad yw'n argyfwng, a thrwy hynny leihau unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd pob plentyn, gan gynnwys rhai sy'n cael eu haddysgu gartref, fe wnaethon ni drefnu cwrdd â grŵp yn Abertawe, a dyna lle cwrddon ni â Matilda. Mae gan Matilda gyflwr niwrolegol prin, ac mae'n ymweld â'r ysbyty yn rheolaidd.

Oherwydd profiadau blaenorol yn yr ysbyty, roedd Matilda yn bryderus am weithwyr proffesiynol ac amgylchedd gofal iechyd, ac roedd hynny'n aml yn golygu naill ai bod apwyntiadau yn cymryd amser hir iawn, neu bod Matilda a'i theulu yn cerdded allan o'r apwyntiadau. Bu hyd yn oed raid i Matilda gael anesthetig ar gyfer apwyntiad prawf llygaid yn yr ysbyty.

Wrth gwrdd â'r grŵp, Matilda oedd y gyntaf i ddod aton ni, ac roedd hi ar unwaith am gamu i rôl y "Gweithiwr Iechyd Proffesiynol", gydag aelod o'r tîm PECI yn "glaf". Rai wythnosau'n ddiweddarach, cysylltodd mam Matilda â ni i rannu llun o Matilda yn gwenu yn yr ysbyty. Esboniodd fod rhaid i Matilda aros dros nos i gael ei harsylwi ar ôl cael pwl cas. Yn dilyn yr ymweliadau gan y Tîm PECI, doedd y profiad ddim yn achosi pryder iddi bellach. Trwy ganiatáu i Matilda ddysgu wrth chwarae, roedd ei phrofiad yn y lleoliad GIG ehangach yn un cadarnhaol, oherwydd ei bod yn adnabod y cyfarpar oedd yn cael ei ddefnyddio ac yn deall beth oedd ei bwrpas, ac o bersbectif synhwyraidd, sut byddai'r gwahanol gyfarpar yn swnio ac yn teimlo wrth gael eu defnyddio.

Yn ogystal â denu sylw ar y newyddion lleol a chenedlaethol, bu STORI MATILDA o gymorth hefyd i ddatblygu rhaglen ehangach o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys ein taflen '7 Gwiriad Pwysig', adnodd darluniadol i blant a phobl ifanc, yn dangos pa gyfarpar mae criwiau'n eu defnyddio wrth arsylwi, a mynd â bagiau cit i'w harddangos mewn digwyddiadau cymunedol strwythuredig, fel bod plant yn gallu chwarae â'r cyfarpar a dod yn gyfarwydd ag e.

## Pa **effaith** mae hyn wedi cael ar **blant a phobl ifanc** yn eich gwasanaeth/lleoliad?

Fel y profodd Matilda yn uniongyrchol, mae ymweld ag amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn rhoi cyfle iddyn nhw ddod yn gyfarwydd â'n gwisg swyddogol a'n cyfarpar ac yn lleihau unrhyw bryderon sydd ganddynt, os bydd angen ein gwasanaethau arnyn nhw neu aelod o'u teulu yn y dyfodol.

## Pa **effeithiau eraill** gafodd eich gwaith hawliau? Er enghraifft, ar eich staff, eich arweinwyr, eich llywodraethiant, neu ar y gymuned ehangach

Rydyn ni'n rhagweld y bydd rhoi cyfle i blant ddod yn gyfarwydd â'r criwiau a chyfarpar ehangach y GIG yn annog plant i gydymffurfio yn ystod arsylwi. Mae'r gwaith hefyd yn ategu eu hawliau fel plentyn; Erthygl 28 CCUHP: "*Mae gen ti hawl i gael addysg*" ac Erthygl 29: "*Rhaid i addysgu hybu dy hawliau a'th helpu i ddatblygu dy sgiliau a'th ddoniau yn llawn*".

Er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach, bydd ‘7 Gwiriad Pwysig’ hefyd yn cael eu datblygu yn gêm ychwanegol ar ap ‘Hwb Golau Glas’ WAST, sy’n galluogi plant i ddysgu popeth am y gwasanaethau brys a’r GIG mewn ffordd sy’n ennyn eu diddordeb. Mae modd lawrlwytho’r ap am ddim o Google Play a’r App store ac mae ar gael trwy’r Hwb yn ogystal.

Mae’r gwaith hwn hefyd wedi adlewyrchu rhaglen ymgysylltu cymunedol Anabledd Dysgu yr Ymddiriedolaeth.